

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn Gorffennaf 3ydd, 2012

Presennol: Huw P Roberts (Cadeirydd), Huw Antur, Ian Trow, Karl Jones, Heledd Jones, Beryl Hughes Griffiths, Bethan Williams, Catrin Roberts, Arwel Lloyd Jones, Dewi Jones

Swyddogion: Bethan Edwards, Lis Puw

Estynnodd y Cadeirydd groeso i bawb ac yn arbennig i Mr Dewi Jones i'w gyfarfod cyntaf.

1087 Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cyng. Alan Evans

1088 Derbyniwyd datganiadau buddiant gan Huw Antur ym mater cynllunio Glan Llyn, Huw Antur a Dewi Jones ym mater y Neuadd Bentref, a Beryl Hughes Griffiths a Bethan Williams ym mater Bwch yn Uchaf.

1089 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion Cyfarfod Mehefin 12fed 2012.

1090 Materion yn codi o gyfarfod mis Mehefin:

1083.3 Hysbysfwrdd y Llan: adroddodd Mr Arwel Lloyd Jones i'r gwaith cael ei orffen a'r plac gael ei osod. Bydd yn trefnu i Mrs Gwen Jones gael tynnu ei llun yno gyda'r Cadeirydd. Diolchwyd iddo am ei waith, Cytunwyd i anfon i ddiolch i Owain Pugh am wneud gwaith mor ddestlus ar yr hysbysfwrdd, ac i'r Eagles am edrych ar ôl yr allwedd. **Gweithredu:** Clerc

1083.6 Derbyniwyd ymateb dros y ffôn i gŵyn y Cyngor am fysiau Arriva yn goryrru trwy'r pentref. Bydd y neges yn cael ei throsglwyddo i'r gyrrwyr.

1083.8 Maes gweryslla Bwch yn Uchaf –

(a) Derbyniwyd adroddiad o'r cyfarfod gyda'r perchennog ar 16/6/2012. Roedd yn arw ganddo am ymddygiad gwael rhai o'r gwerysllwyr ar nos Sadwrn ym mis Mehefin. Derbyniwyd copïau o lythyron yn ymddiheuro gan y gwerysllwyr. Anogodd y perchennog trigolion i'w ffonio pe bydd trafferth yn y dyfodol: 01978 812 179. Dywedodd fod rheolaeth llawn ar y maes ac na fydd grwpiau o ieuencid yn cael aros yno yn y dyfodol.

(b) Derbyniwyd gwybodaeth nad oes trwydded gweryslla ar y maes gan nad oes caniatâd cynllunio arno.

Cytunwyd i anfon at y Parc Cenedlaethol i fynegi'r farn y dylai'r perchennog ddilyn y broses a gwneud cais cynllunio. Byddai'r Cyngor Cymuned wedyn yn gallu rhoi sylwadau ar y cais.

Cytunwyd i dynnu sylw'r Parc at baragraffau olaf adroddiad Chwefror sy'n cyfeirio at lefelau gwahanol ar y cae.

Cytunwyd i ofyn i'r Parc i ystyried y newid defnydd a fu o sied i doiledau.

Gweithredu: Clerc

1091 Gohebiaeth:

1.Gwynedd:

- 1) Dosbarthwyd yr holiadur "Arolwg o Gynghorwyr"
- 2) Derbyniwyd Rhaglen Waith mis Gorffennaf

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Huw Pierce Roberts

2. Parc Cenedlaethol Eryri

- 1) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i adeiladu yng ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn
- 2) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i adleoli lleiniau 6 carafán yn Hendre Mawr
- 3) Derbyniwyd rhestr dyddiadau cyfarfodydd y Parc. Dymuna'r Cyngor fynegi anfodlonrwydd fod y rhestr yn Saesneg yn Unig. **Gweithredu:** Clerc

3. Arall:

- 1) Derbyniwyd Arolwg Hyfforddiant Cynghorwyr. **Gweithredu:** Clerc i'w ateb
- 2) Derbyniwyd a nodwyd Adroddiad Blyneddol yr Ombwdsman
- 3) Derbyniwyd adroddiad Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol. Cytunwyd i wrthwynebu'r cynnig i leihau nifer y Cynghorwyr Sir i Benllyn o 3 i 2. **Gweithredu:** Clerc

1092 Materion ariannol:

- 1) Derbyniwyd manylion y sefyllfa ariannol bresennol.
- 2) Mae'r yswiriant wedi ei dalu i gwmni Zurich.
- 3) Mae'r Cyngor wedi cael ei chofrestru fel Cyflogwr a bydd angen gweithredu ymhellach Chwefror nesaf.
- 4) Cytunwyd i dalu'r biliau a ddaeth i law. Awdurdodwyd talu biliau mis Awst os bydd rhai yn dod i law.

1093 Partneriaeth Penllyn: Derbyniwyd Adroddiad gan y Cynrychiolwyr. Cyfeiriwyd at gyfarfod a gafwyd gyda Swyddogion Gwynedd am y posibilrwydd o leoli'r ganolfan alw yn adeilad yr Henblas, gan ddarparu lle i Gyngor Gwynedd ac asiantaethau gynneg gwasanaethau i drigolion Penllyn; hefyd darparu ystafelloedd cyfarfod, swyddfeydd ac yn y blaen. Bydd y mater yn mynd o flaen Cabinet Cyngor Gwynedd yn fuan. Mae briff ar gyfer astudiaeth dichonoldeb wedi cael ei baratoi a bydd yn mynd at ymgynghorwyr yn fuan. Yn y cyfarfod hwn mynegwyd parodrwydd Partneriaeth Penllyn i weithredu fel Fforwm Ardal; byddai hyn yn galluogi cyswllt uniongyrchol gyda phrif swyddog yng Ngwynedd gyda'r cyllid i weithredu ar rai materion yn unionsyth. Bydd Partneriaeth Penllyn yn trafod yn y cyfarfod nesaf mater apwyntio Clerc Gwaith.

1094 Materion eraill:

- 1) Llwybr y Ceunant - derbyniwyd ymateb gan Liz Haines y bydd y gwaith yn cael ei wneud.
- 2) Derbyniwyd gwybodaeth bod y Clerc wedi ysgrifennu i fynegi cefnogaeth i'r cais am grant i wella'r Neuadd.
- 3) Bydd y Cadeirydd yn chwilio i fater clo ar gwt y fynwent. Bydd hefyd yn ceisio gwneud gwelliannau i faes parcio'r fynwent. Derbyniwyd Cofrestrriad Tir y Fynwent a maes parcio'r fynwent. Cytunwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf arfer rhai pobol i adael eu ceir yn ddyddiol ym maes parcio'r fynwent.
- 4) Mae cerbyd wedi symud carreg o'r wal wrth y toiledau. **Gweithredu:** Clerc i hysbysu adran y priffyrdd.
- 5) Cytunwyd i osod mater gro o dan y ddwy bont ar agenda'r cyfarfod nesaf.